TORFAEN COUNTY BOROUGH — BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

## HYSBYSIAD O WNEUD GORCHYMYN LLWYBR CYHOEDDUS

## DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990
## ADRAN 257

## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

## GWYRO LLWYBR TROED CYHOEDDUS RHIF 19 CWMBRÂN (RHAN) WRTH FFERM UPLANDS, PONTNEWYDD, CWMBRÂN

Cafodd y Gorchymyn uchod ei wneud ar 1af Hydref 2025 o dan Adran 257 y Ddeddf Cynllunio Tref a Gwlad 1990.

Effaith y Gorchymyn fydd gwyro darn o Lwybr Cyhoeddus Rhif 19, i'r gogledd o Fferm Uplands, Pontnewydd yng nghymuned Cwmbrân sy'n dechrau wrth ei gyffordd â Llwybr Cyhoeddus Rhif 15 (GR ST 2877 9786), i'r de o Old Bevans Lane. Mae wedyn yn mynd i gyfeiriad gorllewinol am 125 metr neu tua hynny, i gyfeiriad i'r de am 35 metr neu tua hynny ac yna i gyfeiriad gorllewinol am 267 metr neu tua hynny hyd at ei gyffordd â Llwybr Cyhoeddus Rhif 20 a Llwybr Cyhoeddus Rhif 22 yn GR ST 2836 9784. Cyfanswm hyd y llwybr sydd i'w wyro yw 302 metr neu tua hynny ac fe'i dangosir ar Fap y Gorchymyn fel llinell ddu drwchus o A - B. Mae gan y llwybr wyneb naturiol.

Bydd llwybr amgen yn cael ei greu a fydd yn dechrau wrth ei gyffordd gyda Llwybr Troed 15 Cwmbrân (GR ST 2877 9786), i'r de o Old Bevans Lane. Bydd yn mynd i gyfeiriad gorllewin-gogledd-gorllewinol am 241 metr ble bydd yn ymuno â Llwybr Cyhoeddus Rhif 20 (GR ST 2843 9798). Hyd y llwybr amgen yw tua 210 metr ac fe'i dangosir ar Fap y Gorchymyn fel llinell ddu doredig o C - D. Bydd gan y llwybr troed newydd wyneb graean a bydd yn 2 fetr o led.

Mae copi o'r Gorchymyn Map y Gorchymyn ar gael i'w weld ar-lein trwy https://www.torfaen.gov.uk/cy/RoadsAndPavements. Mae copi hefyd wedi ei osod a gellir ei weld am ddim yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, NP4 6YB o 9.00am tan 5.00pm o Ddydd Llun i Ddydd Iau ac o 9.00am tan 4.30pm ar ddydd Gwener. Gellir prynu copïau o'r Gorchymyn a Map y Gorchymyn yno am £3.00.

Dylid danfon unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau i'r Gorchymyn yn ysgrifenedig gan roi manylion sail y sylwadau neu wrthwynebiadau i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Adran Adnoddau, Gwasanaethau Cymdeithasol, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl NP4 6YB neu drwy e-bost at Traffic.Orders.Legal@torfaen.gov.uk cyn 5ed Tachwedd 2025. Rhowch y cyfeirnod CH/23131 ym mhob gohebiaeth os gwelwch yn dda.

Os na chaiff unrhyw sylwadau eu gwneud yn briodol, neu os gwneir rhai a'u tynnu'n ôl, gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gadarnhau'r gorchymyn fel Gorchymyn diwrthwynebiad. Os danfonir y Gorchymyn at Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w Gadarnhau, bydd unrhyw sylwadau a gwrthwynebiadau nad ydynt wedi eu tynnu'n ôl yn cael eu danfon gyda'r Gorchymyn.

Dyddiwyd: 8fed Hydref 2025